Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Uniondeb academaidd – canllawiau byr i fyfyrwyr

## Pennod 1 – Cyflwyniad

Croeso i'r canllaw hwn ar uniondeb academaidd. Trwy ddilyn y penodau, byddwn yn ystyried rhywfaint ar natur uniondeb academaidd ac yn esbonio rhai diffiniadau hollbwysig. Mae uniondeb academaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau safonau, ansawdd ac enw da unrhyw gymwysterau a enillwch, ac mae'n hanfodol hefyd i sector addysg uwch y DU. Mae uniondeb academaidd yn bwysig iawn i'r Brifysgol; yn wir, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i Siarter Uniondeb Academaidd y DU.

Fel un o fyfyrwyr Prifysgol Wrecsam, byddwch yn ymuno â chymuned academaidd a byddwch yn cyfrannu at y gymuned honno. Law yn llaw â hyn, disgwylir ichi fabwysiadu gwerthoedd uniondeb academaidd; egwyddorion a ddylai dywys eich dysgu a'ch ysgrifennu academaidd. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys:

- Gonestrwydd – byddwch yn agored ynglŷn â tharddiad eich syniadau a byddwch yn eu cydnabod yn ffurfiol;
- Tegwch – byddwch yn cyflwyno eich gwaith gwreiddiol eich hun ac ni fyddwch yn ceisio ennill mantais trwy ddefnyddio dulliau annheg;
- Cyfrifoldeb – byddwch yn gyfrifol am eich dysgu eich hun, gan ysgwyddo rôl weithredol o ran gwybod yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonoch, a byddwch yn deall gofynion academaidd;
- Parch – byddwch yn parchu gweithiau pobl eraill, gan gydnabod y rhai a ddefnyddiwyd gennych i ategu eich gwaith eich hun.

Gallwch ategu uniondeb academaidd trwy wneud y canlynol:

- Cydnabod yn glir pa wybodaeth a ddefnyddiwch trwy ddefnyddio dyfyniadau a chyfeiriadau cywir;
- Cyflwyno eich gwaith eich hun, yn eich geiriau eich hun;
- Defnyddio gwybodaeth yn briodol.

Efallai eich bod wedi dod ar draws cyngor neu ganllawiau gwahanol yn eich gwlad neu eich man astudio blaenorol, felly mae'n bwysig ichi wybod beth yw disgwyliadau addysg uwch y DU a Phrifysgol Wrecsam. Os gwyrwch oddi wrth egwyddorion uniondeb academaidd, fe allech gael eich cyhuddo o gamymddwyn academaidd. Gellir diffinio camymddwyn academaidd fel camau o unrhyw fath a allai roi mantais annheg i chi neu i fyfyrwyr eraill, a gall gynnwys asesiadau ffurfiol neu anffurfiol. Gall myfyrwyr sy'n camymddwyn yn academaidd, yn enwedig os byddant yn twyllo'n fwriadol, wynebu canlyniadau difrifol. Mae'n bwysig ichi sylweddoli y gall Camymddwyn Academaidd arwain at eich tynnu oddi ar eich cwrs. Mae gan y Brifysgol Weithdrefn Uniondeb Academaidd sy'n esbonio rhai o'r cosbau academaidd y gellir eu rhoi ar waith.

**Pwyntiau hollbwysig i fyfyrwyr**

1. Chi sy'n gyfrifol am uniondeb eich gwaith academaidd a'r hyn a ddysgwch;
2. Trwy dderbyn egwyddorion uniondeb academaidd, bydd modd gwella eich gwaith academaidd a chewch y siawns orau o lwyddo;
3. Byddwch yn cael ffynonellau cymorth er mwyn sicrhau eich bod yn cynhyrchu gwaith ag

uniondeb academaidd ac yn osgoi camymddwyn academaidd;

4. Ceir gwahanol fathau o gamymddwyn academaidd ac mae'n hanfodol ichi ddeall yn fanwl yr egwyddorion sy'n sail iddynt;
5. Nid yw camymddwyn academaidd byth bythoedd yn dderbyniol.

**Mathau o gamymddwyn academaidd**
Dyma enghreifftiau o gamymddwyn academaidd:

- Llên-ladrad
- Cydgynllwynio
- Ffugio data/tystiolaeth
- Camymddwyn ymchwil
- Twyllo contract – defnyddio melinau traethawd a Deallusrwydd Artiffisial
- Twyllo mewn asesiadau a amserir (e.e. arholiadau a phrofion yn y dosbarth)
- Ailddefnyddio eich deunydd eich hun

Disgrifir y rhain yn fyr ym mhenodau canlynol y llyfr gwaith hwn. Hefyd, ceir ychwaneg o wybodaeth a chanllawiau (a diffiniadau manylach) ar borth myfyrwyr y Brifysgol:

- Uniondeb Academaidd: Canllawiau i Fyfyrwyr
- Gweithdrefn Uniondeb Academaidd
- Gwefan dysgu sgiliau – canllawiau ar Uniondeb Academaidd

## Pennod 2 – Llên-ladrad, Cydgynllwynio a Ffugio Data

**Llên-ladrad**
Ystyr llên-ladrad yw defnyddio gwaith, geiriau neu syniadau rhywun arall heb gydnabod y ffynhonnell wreiddiol, gan eu cyflwyno i'w hasesu. Bydd hyn yn creu'r argraff mai eich gwaith, eich geiriau neu eich syniadau chi ydynt. Ystyrir bod llên-ladrad yn gamymddwyn academaidd, ac mae'n anfoesegol. Un arfer academaidd da yw cydnabod ffynhonnell yr wybodaeth a ddefnyddiwch fel tystiolaeth yn eich gwaith. Gall ffynhonnell yr wybodaeth fod mewn nifer o wahanol ffurfiau; trwy gyfeirio'n briodol at y ffynhonnell, bydd modd cydnabod y ffynhonnell a hefyd bydd hyn yn gwella eich gwaith. Oni bai eich bod yn dyfynnu'n benodol o'r ffynhonnell wreiddiol (trwy ddefnyddio dull dyfynnu priodol), dylech ysgrifennu yn eich geiriau eich hun bob amser ac ni ddylech aralleirio'r testun er mwyn creu'r argraff mai eich gwaith chi ydyw. Nid yw copïo a gludo deunydd y daethpwyd o hyd iddo ar-lein byth bythoedd yn dderbyniol. Mae'r gallu i ddehongli gwaith pobl eraill ac ysgrifennu yn eich arddull a'ch geiriau eich hun yn sgìl academaidd pwysig. Ceir cyngor defnyddiol ar wefan sgiliau dysgu'r Brifysgol, yn cynnwys:

- Deall llên-ladrad
- Deall sut i gyfeirio
- Deall aralleirio

**Cydgynllwynio**
Mae cydgynllwynio yn digwydd pan fydd gwaith academaidd, y bwriedir iddo gael ei lunio gan unigolyn, yn cael ei gynhyrchu neu ei rannu gan fwy nag un person ac yn cael ei gyflwyno fel pe bai'n waith a luniwyd gan un person yn unig. Gall unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â chydgynllwynio wynebu cosb, hyd yn oed os byddwch wedi cynhyrchu'r gwaith ar eich pen eich hun.

Mae methu â diogelu eich gwaith, yn cynnwys ei rannu o'ch gwirfodd ag eraill, yn enghraifft o gydgynllwynio.

Gellir osgoi cydgynllwynio trwy beidio â rhannu eich gwaith gyda myfyrwyr eraill, hyd yn oed os mai eu hunig fwriad yw gweld copi o'ch gwaith chi er mwyn eu helpu gyda'u gwaith nhw. Oni bai eich bod yn mynd i'r afael â gwaith grŵp dilys, lle bydd telerau wedi'u gosod a'u caniatáu gan yr aelod staff academaidd, dylech weithio'n annibynnol bob amser. Mae hyn hefyd yn cynnwys rhannu data, ffeiliau a chanfyddiadau ymchwil, oni bai bod hyn yn rhan o brosiect grŵp a'i fod wedi'i ganiatáu gan yr aelod staff academaidd dan sylw.

**Llên-ladrad a chydgynllwynio – meddalwedd Turnitin**
Yn ogystal â barn y staff academaidd a fydd yn marcio eich gwaith, mae'r Brifysgol yn defnyddio meddalwedd o'r enw Turnitin a all baru eich gwaith â deunydd ar-lein a'i gymharu gyda gwaith myfyrwyr eraill. Mae hyn yn cynhyrchu sgôr tebygrwydd a all ganfod ffynonellau llên-ladrad a chydgynllwynio. Mae gan fyfyrwyr gyfle i ddefnyddio'r feddalwedd hon gyda fersiynau drafft o'u haseiniadau. Gall fod yn ffordd ddefnyddiol o wella eich gwaith a sicrhau eich bod yn cynhyrchu gwaith annibynnol lle defnyddiwch eich geiriau eich hun. Ni ddylid ei ystyried fel ffordd o 'ostwng eich sgôr tebygrwydd' neu osgoi cyhuddiadau o gamymddwyn academaidd – dull mesur yn unig yw'r sgôr tebygrwydd, a'r staff academaidd a fydd yn gwneud penderfyniad cyffredinol ynglŷn â'r gwaith. Nid oes y fath beth â sgôr tebygrwydd 'ddiogel' i'w chael, a dylech fod yn ymwybodol o hyn. Trwy ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial, er enghraifft, efallai y ceir sgôr tebygrwydd o 0%, ond bydd y staff yn dal i sylwi ar arwyddion bod y testun wedi'i gynhyrchu gan Ddeallusrwydd Artiffisial, megis gwyro oddi wrth eich arddull ysgrifennu arferol.

**Ffugio data/tystiolaeth a Chamymddwyn ymchwil**
Yn ystod eich astudiaethau, byddwch yn mynd i'r afael â gwaith academaidd lle bydd yn rhaid cynhyrchu a/neu gasglu data, tystiolaeth, arsylwadau a chanfyddiadau ymchwil. Diffinnir ffugio data fel cynhyrchu gwybodaeth mewn ffordd ffug, gwneud honiadau ffug neu gael gafael ar ddata heb ganiatâd trydydd parti. Os cewch broblemau wrth geisio cael gafael ar yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i'ch gwaith academaidd, siaradwch â'r staff academaidd dan sylw. Peidiwch â chael eich temtio i ffugio unrhyw beth; bydd opsiynau a chymorth ar gael ichi.

Mae datblygu sgiliau ymchwil a chynnal prosiectau ymchwil yn rhan bwysig o astudiaethau academaidd. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw waith ymchwil arfaethedig gael ei adolygu'n ofalus ac yn aml, a'i fod angen cymeradwyaeth foesegol ffurfiol. Y fantais yn hyn o beth yw y bydd yr ymchwil yn onest ac yn foesegol (hynny yw, bydd y gwaith yn cael ei gynhyrchu yn y dull mwyaf diogel posibl). Mae'n ofynnol i fyfyrwyr ymhél â gweithdrefnau cymeradwyaeth foesegol; os eir ati i gynnal prosiectau ymchwil heb y gymeradwyaeth briodol, mae'n bosibl y bydd hynny'n cael ei ystyried fel camymddwyn ymchwil. Cysylltwch â'r aelod staff sy'n eich cynorthwyo gyda'ch ymchwil i gadarnhau'r pethau y mae angen eu gwneud.

## Pennod 3 – Twyllo
Mae twyllo mewn asesiadau (arholiadau neu asesiadau o fath arall) yn annerbyniol bob amser, a gall arwain at ganlyniadau difrifol. Fel yn achos Camymddwyn Academaidd o bob math, bydd twyllo yn rhoi eich gyrfa academaidd a'ch gyrfa yn y dyfodol mewn perygl.

**Twyllo contract**
Mae twyllo contract yn golygu defnyddio trydydd parti i gynhyrchu gwaith academaidd ar eich rhan. Yn ogystal â gofyn i rywun rydych yn ei adnabod ysgrifennu'r gwaith, mae melinau traethawd

masnachol bellach yn broblem gynyddol, ynghyd â defnyddio deallusrwydd artiffisial. Gyda'r ddau ddull hyn, yn aml bydd myfyrwyr yn talu llawer o arian i ryw wasanaeth a fydd yn cynhyrchu gwaith academaidd ar eu rhan.

Gall twyllo contract arwain at nifer o ganlyniadau posibl:

- Gall camymddwyn academaidd arwain at gosbau llym, a bydd camymddwyn yn y fath fodd yn effeithio ar eich gallu i barhau â'ch astudiaethau academaidd a bydd hefyd yn effeithio ar eich cynlluniau gyrfa ar gyfer y dyfodol;
- Mae'r ddeddfwriaeth yn newid yn y DU ac ystyrir bod darparu gwasanaethau twyllo contract yn drosedd;
- Gall y gwaith a gynhyrchir fod o ansawdd gwael iawn;
- Gall fod yn ddrud, ac mewn nifer o achosion mae myfyrwyr yn talu am y gwasanaeth ac yn cael dim byd yn ôl am eu harian;
- Weithiau, mae gwasanaethau twyllo contract yn rhoi gwybod i Brifysgolion bod myfyrwyr yn eu defnyddio, os bydd y myfyrwyr yn penderfynu peidio â thalu am waith gwael neu os byddant yn torri'r cytundeb mewn rhyw ffordd – dyma risg nad yw'n werth ei chymryd.

**Twyllo mewn asesiadau a amserir (e.e. arholiadau a phrofion yn y dosbarth)**
Ceir rheolau llym o ran y modd y dylid ymddwyn mewn asesiadau a amserir, pa un a gynhelir yr asesiad dan sylw mewn amgylchedd a reolir yn y Brifysgol neu ar ffurf asesiad ar-lein, o bell. Dyma enghreifftiau o gamymddwyn academaidd mewn asesiadau a amserir (wyneb yn wyneb neu ar-lein):

- Defnyddio deunyddiau na chânt eu hawdurdodi ar gyfer yr arholiad neu'r prawf dan sylw;
- Copïo oddi ar rywun arall, rhannu deunyddiau gyda rhywun arall neu gyfathrebu gyda rhywun arall yn ystod yr arholiad neu'r prawf;
- Dynwared rhywun arall neu ganiatáu i rywun eich dynwared chi;
- Cyflwyno atebion neu waith academaidd a luniwyd gan drydydd parti.

## Casgliad

Peidiwch â gadael i gamymddwyn ac uniondeb academaidd eich poeni – bydd y canllawiau uchod yn eich helpu i gynhyrchu gwaith priodol o'r radd flaenaf. Os ydych o'r farn eich bod angen rhagor o wybodaeth, neu os nad ydych yn deall pethau'n iawn, cysylltwch â'ch tiwtor personol, tiwtor eich modiwl neu arweinydd eich rhaglen, neu gallwch gysylltu hefyd â'r tîm Sgiliau Dysgu yn y Llyfrgell. Byddant wrth law i'ch helpu. Hefyd, mae'r llyfr gwaith hwn yn eich cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill.